# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU

## Rheoliadau (Diwygio) Rheoliadau Addysg (Trawsnewid i'r Fframwaith Newydd) (Ysgolion Newydd, Grwpiau ac Amrywiol) 1999 (Cymru) 2000

**Y Cefndir**

Cafodd Rheoliadau Addysg (Trawsnewid i'r Fframwaith Newydd) (Ysgolion Newydd, Grwpiau ac Amrywiol) 1999 eu gwneud er mwyn paratoi i weithredu'r fframwaith newydd i ysgolion o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Wrth ddarparu ar gyfer trosglwyddo eiddo i'r cyrff llywodraethu newydd, fodd bynnag, yr oedd y Rheoliadau'n darparu ar gyfer trosglwyddo eiddo penodol i'r awdurdod addysg lleol pan oedd yn fwriad, mewn gwirionedd, i freinio eiddo heblaw tir ym mhob achos yng nghorff llywodraethu unigol newydd yr ysgol o dan sylw.

Yn unol â hynny mae'r Rheoliadau'n cywiro hyn drwy ddarparu bod eiddo a drosglwyddwyd i'r awdurdod addysg lleol yn cael ei freinio bellach yng nghorff llywodraethu unigol yr ysgol.

Gan fod y Rheoliadau blaenorol yn Rheoliadau Cymru a Lloegr mae'r un diffyg wedi codi yn Lloegr. Mae Rheoliadau diwygio ar yr un ffurf â'r rhai sydd o dan sylw wedi cael eu gwneud eisoes ynghylch cymhwysiad Rheoliadau 1999 yn Lloegr - OS 1999 Rhif 3297 a wnaed ar 8 Rhagfyr 1999, ac a ddaeth i rym ar 31 Rhagfyr 1999.

Fel y nodir ar frig y Rheoliadau, maent i'w rhoi'n ddi-dâl i bawb y gwyddys eu bod wedi cael Rheoliadau 1999. Mae hyn yn unol â'r weithdrefn sy'n gymwys mewn achosion lle gwneir deddfwriaeth newydd o ganlyniad i wall cydnabyddedig.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

Er hynny, mae rhai sylwadau cyffredinol yr ystyrir y dylid tynnu sylw'r Cynulliad atynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Teitl**

Er ei bod yn arfer rheolaidd i deitl offeryn diwygio ymgorffori teitl yr offeryn blaenorol sy'n cael ei ddiwygio, nid yw'n rheolaidd i gynnwys blwyddyn yr offeryn blaenorol. Gan hynny ni fyddai neb wedi disgwyl gweld "1999" yn nheitl y Rheoliadau presennol. Nodir, er hynny, yn y cyswllt hwn fod y Rheoliadau yn cydymffurfio â'r rheoliadau diwygio a wnaed ar gyfer Lloegr.

**Rheoliad 1 - Y Pennawd**
Dylid bod wedi mewnosod "dehongli" ar ôl "cychwyn".

**Rheoliad 1(3)**
Dylai "Rheoliadau" gael prif lythyren R i gydymffurfio â rheoliad 2.

**Yr Atodlen**
Dylid cael cyfeiriad at Reoliad 2 ar ymyl y ddalen.

Nodir bod rheoliad presennol 54 wedi'i ddisodli gan reoliad 54 newydd.

Bydd darpariaeth ddeddfwriaethol sy'n gweithredu trosglwyddo eiddo wedi cael effaith ar adeg benodol, er hynny. Gan hynny nid yw'n gwbl briodol efallai i honni ail-ddeddfu darpariaeth o'r fath.

Gan fod Rheoliadau 1999 yn gymwys yng Nghymru a Lloegr, fodd bynnag, derbynnir bod angen i'r diwygio a wneir gan Reoliadau diwygio Cymru fod ar yr un ffurf â'r diwygio a wneir ar gyfer Lloegr, er mwyn cadw cywirdeb testun darpariaeth sy'n gymwys yn y ddwy wlad.

**Troednodyn (b)**

Mae hwn yn cyfeirio at Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 2000 sef OS 2000/253. Gan fod Gwasg Ei Mawrhydi yn anghywir wrth roi rhif Cy. iddo, fe all na fydd y rhif Cy. yn ymddangos yn y gyfrol flynyddol a'r rhestri blynyddol. Yn hyn o beth efallai mai gwell fyddai peidio â chynnwys y rhif Cy. yn y troednodyn.

**J H TURNBULL**
**Cynghorydd Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

Cyf: LAD-01-01-122

Dyddiad: 7 Mehefin 2000